OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 413

## Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016

### Cychwyn

**2.**—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016 yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (6).

(2) Daw rheoliad 140 i rym ar y diwrnod y daw adran 85D o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) i rym.

(3) Daw rheoliad 158 i rym ar y diwrnod y daw adran 562J o Ddeddf Addysg 1996(**2**) i rym.

(4) Daw rheoliad 235 i rym ar y diwrnod y daw adran 93A o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006(**3**) i rym.

(5) Daw rheoliad 253 i rym ar y diwrnod y daw'r diwygiad i adran 6 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**4**), a wnaed gan baragraff 8 o Atodlen 14 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008(**5**), i rym.

(6) Daw rheoliadau 322 a 323 i rym yn union ar ôl i'r diwygiad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n mewnosod yn y Ddeddf honno Atodlen A1 (Taliadau Uniongyrchol: Ôl-ofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983), a wnaed gan baragraff 1 o Ran 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Gofal 2014(**6**), ddod i rym.

(**1**) 1992 p. 13.
(**2**) 1996 p. 56.
(**3**) 2006 p. 40.
(**4**) 2006 p. 47.
(**5**) 2008 p. 14.
(**6**) 2014 p. 23.